


Dangosfwrdd Perfformiad Pobl

24 Mehefin 2026 - 29 Medi
2026

Trawsnewidiad Gweithiwr a Chynaliadwyedd Gweithlu

Staff yn eu Swydd WTE




Cyfanswm staff yn eu swyddi:

109


STATWS ASEINIAD

Fixed Term Permanent




CATEGORI GWEITHIWR

Part Time Full Time




RHYW GWEITHIWR

Male Female



BANDIAU OEDRANNAU



Trawsnewidiad Gweithiwr a Chynaliadwyedd Gweithlu

	Gwryw	Benyw
Band 3	0	3
Band 4	2	18
Band 5	2	13
Band 6	5	36
Band 7	2	10
Band 8a	1	0
Band 8b	3	9
Band 8c	2	1
Band 9	1	0
VSM	0	1

Swyddi a Hysbysebwyd:
 Gorffennaf 2026 - Medi 2026

4

Staff Asiantaeth:
 Gorffennaf 2026 - Medi 2026

13

Gwerthusiad Swydd Ddisgrifiad:
 Gorffennaf 2026 - Medi 2026

5

Teitl swydd	Statws Cyfredol
Swyddog Cyllid	Dyddiad dechrau 19/10/2026.
Eiriolaeth Cwynion	Dyddiad dechrau 25/09/2026
Swyddog Ymgysylltiad Cymunedol (Mynegiant Diddordeb)	Dyddiad dechrau'r secondiad mewnol 01/10/2026
Llywodraethiant a Rheolwr Risg (Cyfnod Mamolaeth)	Cynnig a wnaed

Staff Newydd:
 Gorffennaf 2026 - Medi 2026

4

Rhywedd:
 Benyw
 3

Gwryw
 1



Trosiant - Canran y Staff a Gadwyd

98.17%

Roedd yna 2 yn gadael yn ystod y cyfnod adrodd.

Beth mae'r siart yn ei ddweud wrthym	Meysydd sy'n Achos Pryder/Arsylwi	Camau Gweithredu/Lliniaru
<u>Staff yn eu Swyddi</u> O 29 Medi 2026, cyflogodd Llais 109 o weithwyr oedd yn cyfateb i 102.31 o swyddi amser llawn. Mae 6% (6) o'r gweithlu ar gytundeb tymor penodol ar hyn o bryd. Mae 83% (91) o'r gweithlu yn fenywaidd, 17% (18) yn wrywaidd. Mae 19% (21) yn gweithio'n rhan amser. <u>Swyddi Gwag / Recriwtio</u> Cafodd 3 rôl eu hysbysebu'n allanol a chafwyd 1 mynegiant o ddiddordeb wedi'i nodi'n fewnol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd 5 swydd ddisgrifiad yn cael eu gwerthuso. Gyda'i gilydd, ymunodd 4 o staff newydd gyda Llais yn ystod y cyfnod adrodd, 3 menyw, 1 dyn. <u>Staff Asiantaeth</u> Roedd yna 13 o unigolion yn gweithio i Llais drwy asiantaeth yn ystod y cyfnod adrodd. <u>Cadw Staff/ Staff yn Gadael</u> Gadawodd 2 o staff yn y cyfnod adrodd.	<u>Gwerthuso Swydd</u> Mae'r amserlen er mwyn i wasanaethau a rennir werthuso swydd ddisgrifiadau yn parhau i fod yn nifer o wythnosau, ac weithiau'n fisoedd sy'n arwain at ohriad o ran gallu hysbysebu swyddi. <u>Staff Asiantaeth</u> Mae nifer yr unigolion sy'n gweithio i Llais drwy asiantaeth yn parhau i fod yn uchel. Mae hyn yn rhannol oherwydd gohiriadau o ran gwerthuso rolau gan Wasanaethau a Rennir. <u>Cadw Staff/Staff yn Gadael</u> Gadawodd dau aelod o staff yn ystod Chwarter 2; cafodd y ddau gynnig yr opsiwn i fynychu cyfweiliad ymadael wyneb yn wyneb neu gwblhau arolwg cyfweiliad ymadael ar-lein. Gwrthododd y ddau yr opsiwn hwn ac felly does dim data cyfweiliad ymadael ar gael i gadarnhau eu rhesymau dros adael.	<u>Gwerthuso Swydd</u> Anfonir Swydd Ddisgrifiadau i'r Gwasanaethau a Rennir er mwyn eu gwerthuso, ac er nad oes gennym unrhyw reolaeth dros yr amserlen ar gyfer eu cwblhau, rydym wedi sylwi ar nifer o rolau sydd wedi'u hanfon yn ôl oherwydd nad ydynt yn cyd-fynd gyda phroffiliau rolau GIG sy'n bodoli eisoes. Mae'r tîm Pobl yn awyddus i fynychu hyfforddiant Gwerthuso Swyddi yn Ch3 a Ch4 er mwyn gwella ein dealltwriaeth fewnol o sut mae rolau'n cael eu gwerthuso a lleihau'r nifer o rolau sy'n cael eu gwrthod oherwydd nad ydynt yn cyd-fynd. Er na fydd y tîm Pobl yn gallu gwerthuso rolau Llais yn fewnol, byddant yn gallu eistedd ar baneli gwerthuso'r GIG, gan gynyddu argaeledd aelodau o'r panel sy'n gallu asesu swydd ddisgrifiadau Llais. <u>Staff Asiantaeth</u> Mae swydd ddisgrifiad Swyddog Eiriolaeth Cwynion a Chefnogaeth wedi cael ei gwerthuso, a bydd y rôl hon yn cael ei hysbysebu'n syth, gan ddisodli tair o'r swyddi sydd ar hyn o bryd yn cael eu llenwi gan asiantaeth. Bydd Partner Busnes Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn cael ei hysbysebu ym mis Hydref gan ddisodli rôl bellach sy'n cael ei llenwi drwy asiantaeth. Rhagwelir erbyn mis Rhagfyr y bydd nifer y staff asiantaeth wedi lleihau i 9.

Iechyd a Lles Gweithwyr

Absenoldeb oherwydd salwch
Canran Cyfartalog
Gorffennaf - Medi 26:

7.78%


Absenoldeb oherwydd salwch:
Nifer cyfartalog y staff a gollir bob mis:

6.94 WTE




% Trafodaethau Dychwelyd i'r Gwaith


0% - 60% 60% - 80%
80% - 100%



Llinell amser absenoldeb salwch Llais



Absenoldeb Tymor Hir / Tymor Byr



Cyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd yn ystod Chwarter 2 oherwydd absenoldeb salwch:

740



Y prif resymau dros Absenoldeb fesul Diwrnodau o Absenoldeb

Rheswm dros yr Absenoldeb	Niferoedd	Achosion o Absenoldebau	Dyddiau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd	%
S10 Gorbryder/straen/iselder/salwch seiciatrig eraill	11	11	323.13	47.0
S98 Achosion hysbys eraill	4	4	156.20	22.7
S12 Problemau cyhyr-ysgerbydol eraill	3	3	70.40	10.2
S19 Problemau gyda'r galon, a phroblemau cylchrediad	2	2	64.33	9.4
S99 Cyflwr iechyd corfforol	1	1	47.00	6.8
S25 Problemau gastroberfeddol	6	6	10.00	1.5
S13 Anwyd, Peswch, Ffliw	2	2	5.00	0.7
S26 Anhwylderau cenhedlwl-wrinol a gynecolegol	2	2	4.00	0.6
S16 Cur pen / meigrin	4	4	3.91	0.6
S21 Clust, trwyn a gwddf (ENT)	1	1	2.00	0.3


Beth mae'r siart yn ei ddweud wrthym	Achosion Pryder/Arslywadau	Camau Gweithredu/Lliniaru
<u>Absenoldeb oherwydd salwch</u> Adroddir absenoldeb salwch yn Ch2 ar gyfartaledd o 7.78%, sy'n cynrychioli ychydig o welliant o'i gymharu gyda 7.80% yn y chwarter blaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn uwch na'r targed sefydliadol o 3.30%. Mae cyfsweliadau Dychwelyd i'r Gwaith (RTW) a gofnodwyd ar ESR ar gyfer y chwarter yn 83.33%, gan adlewyrchu cynnydd o 73.68% yn y chwarter blaenorol. Bu lleihad yn nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn o staff absennol bob mis, gan ostwng o 7.71 i 6.94, fodd bynnag gwelwyd cynnydd yn nghyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd, sydd wedi codi i 740 diwrnod o 703 diwrnod yn y chwarter blaenorol. Y pedwar prif reswm dros absenoldeb salwch yn ystod y cyfnod adrodd oedd: • gorbryder/straen/iselder/salwch seiciatreg eraill - 323 diwrnod wedi'u colli. • Achosion hysbys eraill (heb eu disgrifio yn unman arall - 156 o ddiwrnodau wedi'u colli. • Problemau cyhyr-ysgerbydol eraill - 70 diwrnod wedi'u colli. • Cyflyrau'r galon a/neu gardiaidd - 64 diwrnod wedi'u colli.	Mae <u>Absenoldeb Salwch</u> Gorbryder/straen/iselder yn cyfrif am 47% o'r prif resymau dros absenoldeb salwch a gofnodwyd, fodd bynnag priodolir y rhan fwyaf o absenoldebau salwch hirdymor i resymau personol / rhesymau iechyd eraill. Er bod y gyfradd absenoldeb salwch cyfartalog yn uchel ar 7.78 dyw hyn ond ychydig yn uwch na'r gyfradd absenoldeb cyfartalog 12 mis ar gyfer GIG Cymru, a adroddwyd fel 6.4%. Mae'r targed sefydliadol wedi parhau yr un fath ers 2023, fodd bynnag mae ymchwil gan CIPD yn dangos bod y lefelau absenoldeb cyfartalog wedi cynyddu o 2.2 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr ers 2023. Mae cynnydd wedi bod yn nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb yn chwarter dau o chwarter un. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd bach yn nifer yr absenoldebau tymor byr o saith diwrnod neu fwy a gymerwyd yn y cyfnod hwn. <u>Cyfsweliadau Dychwelyd i'r Gwaith</u> Mae anghysondeb yn parhau gyda rhai rheolwyr naill ai heb fod yn cynnal cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith gyda'u	<u>Salwch Hirdymor</u> Mae'r Tîm Pobl yn parhau i chwarae rôl weithredol yn cefnogi achosion o salwch hirdymor. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd salwch hirdymor a darparu arweiniad i reolwyr a gweithwyr. Mae'r gefnogaeth yn sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n gyson ac yn unol â'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith. <u>Cyfsweliadau Dychwelyd i'r Gwaith</u> Mae cyfarfodydd misol rhanbarthol gyda rheolwyr yn parhau i gael eu cynnal, lle mae absenoldebau salwch yn cael eu hadolygu, gan gynnwys trafodaeth ynghylch cwblhau cyfarfodydd Dychwelyd i'r Gwaith. Darperir rheolwyr gyda dangosfyrddau misol sy'n amlgu'r blychau o ran cydymffurfiaeth yn eglur, gan gynnwys lle nad yw cyfarfodydd Dychwelyd i'r Gwaith wedi eu cynnal neu eu cofnodi. Yn ogystal, mae'r Tîm Pobl yn ymgysylltu'n weithredol gyda rheolwyr er mwyn tynnu sylw at unrhyw gyfarfodydd Dychwelyd i'r Gwaith sy'n aros, ac i symblu

	gweithwyr neu'n peidio cofnodi dyddiadau'r cyfarfodydd ar ESR.	diweddariadau i EST lle mae cofnodion yn anghyflawn neu ar goll.
--	--	--


Trawsnewidiad Gweithiwr a Chynaliadwyedd Gweithlu

Team Appraisals

0% - 60% 60% - 80%
 80% - 100%



CYSYLLTIADAU GWEITHWYR



Diweddariad e-Ddysgu - Y Sefyllfa Bresennol o 29 Medi 2026

	Y Chwarter Blaenorol	Y Chwarter Hwn
Diogelwch Tân	99%	99%
Iechyd a Diogelwch	97%	97%
Atal a Rheoli Haint	94%	94%
Llywodraethu Gwybodaeth	99%	99%
Fy Nhrin yn Deg (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)	95%	95%
Symud a Thrin	98%	98%
Adfywio	97%	97%
Diogelu Pobl	93%	93%
Trais ac Ymosod	93%	93%
Sylfeini Gwelliant	91%	91%
Anawsterau Dysgu Paul Ridd	94%	94%
Trais yn Erbyn Menywod	89%	89%
Gwrth-hiliaeth	88%	88%

Y ganran gyfartalog ar gyfer yr holl e-Ddysgu gorfodol ar ESR **89%**

Mae Atal Aflonyddu Rhywiol ar hyn o bryd yn **36%**

Beth mae'r siart yn ei ddweud wrthym	Achosion Pryder/Arslywadau	Camau Gweithredu/Lliniaru
<u>E-Ddysgu Gorfodol</u> Mae lefelau cydymffurfio'n parhau i wella; fodd bynnag, does yr un o'r 13 modiwl gorfodol yn cydymffurfio 100%. Mae'r gyfradd gydymffurfio gyfartalog ar draws pob modiwl ar hyn o bryd yn 89%, gan gynrychioli gostyngiad o 93% o'r chwarter blaenorol. Mae gan y modiwl Polisi Atal Aflonyddu Rhywiol ac e-Ddysgu, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2026 ac a gynhwyswyd o fewn yr hyfforddiant gorfodol gyda chyfraddau cwblhau isel ar hyn o bryd. Hyd yma, dim ond 39 (36%) o weithwyr sydd wedi cwblhau'r modiwl. <u>PADR</u> Mae'r system ESR yn dynodi bod y gyfradd gydymffurfio sefydliadol ar gyfer cofnodi Cyfarfodydd Gwerthuso, Perfformiad a Chynnydd mewn Tâl ar hyn o bryd yn 58.72%, gan gynrychioli cynnydd o 38.32% yn y chwarter blaenorol. <u>Cysylltiadau Gweithwyr</u> Drwy gydol chwarter 2, mae'r tîm Pobl wedi cefnogi un gwyn, un ymchwiliad ac un ymgynghoriad OCP.	<u>E-Ddysgu Gorfodol ESR</u> Mae achosion o gwblhau hyfforddiant gorfodol wedi lleihau ychydig y chwarter hwn gan mwyaf oherwydd y nifer o staff newydd. Disgwylir i'r holl gydweithwyr newydd gwblhau'r e-Ddysgu gorfodol o fewn tri meis, oherwydd mae'r data a adroddwyd yn cynnwys cydweithwyr newydd sydd wedi bod yn eu swyddi am lai na thri mis. Mae'r data yr adroddwyd arno hefyd yn cynnwys cydweithwyr sydd oddi allan i'r sefydliad oherwydd absenoldeb hirdymor, profedigaeth, cyfnod mamolaeth/tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir. Ar hyn o bryd mae pedwar cydweithiwr i ffordd ar absenoldeb mamolaeth a phump ar absenoldeb salwch hirdymor fydd yn effeithio ar gywirdeb y ffigyrau yr adroddwyd arnynt. Mae'r cyfraddau cwblhau ar gyfer y modiwl e-Ddysgu Deall Aflonyddu Rhywiol a Dioddefwyr yn parhau i fod yn achos pryder gyda llai na hanner y gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant. <u>PADR</u> Er bod cynnydd o 20.4% wedi bod yn nifer y gwerthusiadau a gynhaliwyd ers Ch1, mae angen gwaith pellach er mwyn sicrhau bod gwerthusiadau'n cael eu cynnal ar amser a'u	<u>E-Ddysgu Gorfodol ESR</u> Mae cydymffurfiaeth gyffredinol yn parhau i wella, gyda chynnydd yn cael ei gyfathrebu'n rheolaidd i reolwyr drwy'r dangosfyrdau cydymffurfiaeth misol. Mae'r Tîm Pobl yn cefnogi hyn yn weithredol drwy atgyfnerthu negeseuon allweddol mewn cyfarfodydd rhanbarthol misol, ochr yn ochr ag ymgysylltiad uniongyrchol gyda'r ddau reolwr a staff unigol lle mae'n angenrheidiol. Mae'r e-Ddysgu Atal Aflonyddu Rhywiol yn fodiwl sydd wedi'i ddylunio oddi allan i ESR gan Llais ac o'r herwydd nid yw'n ymddangos ar E-Ddysgu sydd angen ei gwblhau gan gydweithwyr ar ESR. Bydd nodyn atgoffa pellach yn cael ei ddosbarthu i bob cydweithiwr er mwyn atgyfnerthu'r angen i gwblhau'r modiwl e-Ddysgu Deall Aflonyddu Rhywiol ac Erledigaeth. <u>PADR</u> Bydd cyfraddau cynnydd a chwblhau yn parhau i gael eu monitro a'u trafod yn y cyfarfodydd misol rhanbarthol. Mae dau fframwaith newydd yn cael eu datblygu - Sgyrsiau Llais a'r fframwaith Cyfraniad a Datblygiad. Wedi iddynt gael eu cyflwyno, bydd y fframweithiau'n atgyfnerthu

	cofnodi. Mae'r ffigyrau a ddyfynnir yn cynnwys gweithwyr sydd i ffwrdd ar absenoldebau hirdymor ac absenoldeb mamolaeth/tadolaeth.	ymhellach amllder ac ansawdd cyfarfodydd un wrth un a sgysiau gwerthuso ar draws Llais.
--	---	--